Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Meddygfa Llynfi
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
## Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 25 Ebrill 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-80535-850-3
© Hawlfraint y Goron 2023


Ar y cyfan, gwelsom fod Meddygfa Llynfi yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'r cleifion.

Roedd y practis mewn adeilad mawr, gan gynnig mynediad llawn i bobl anabl. Roedd ardal aros fawr, toiled anabl a meddygfeydd ar y llawr gwaelod.

Roedd y practis yn arddangos ei bolisi cwynion a oedd yn cyd-fynd â gweithdrefn gwyno'r GIG 'Gweithio i Wella'. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â sicrhau bod y ddogfen hon yn gyfredol ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom fod prosesau atal a rheoli heintiau wedi'u rheoli'n dda yn y lleoliad, ond nid oedd archwiliad wedi'i gwblhau ar gyfer y lleoliad mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.


Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau ar waith yn y practis; ond nid oedd dyddiad ar lawer ohonynt, ac nid oeddent yn cynnwys dyddiadau adolygu blynyddol chwaith. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r staff a phwysigrwydd sicrhau bod pob polisi yn gyfredol.



Er i'r staff ddweud eu bod wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-anadlol, nid oedd tystysgrifau ar gael i ddangos hyn. Cawsom wybod bod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei ddarparu gan yr uwch-ymarferydd parafeddygol mewnol, ond ni allai ddarparu tystysgrifau swyddogol ar gyfer hyn. Gwnaethom godi'r mater hwn fel pryder uniongyrchol. Mae'r staff wedi cytuno i drefnu hyfforddiant dadebru cardio-anadlol a fydd yn rhoi ardystiad swyddogol iddynt cyn gynted â phosibl.

Hefyd, cawsom wybod nad oedd staff anghlinigol wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau gweithio yn y practis. Nodwyd bod hwn yn fater y dylid ymdrin ag ef ar unwaith hefyd a bod angen sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Llynfi, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar 23 Ionawr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a phedwar adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod staff ym Meddygfa Llynfi yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gofalgar a chyfeillgar i'r cleifion.

Gwelsom fod y practis yn hygyrch i'r holl gleifion, gydag ardal aros fawr, meddygfeydd ar y llawr gwaelod a thoiled i bobl anabl. Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion hefyd.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai'r staff sicrhau bod y polisi rheoli cofnodion yn cael ei arddangos yn ardal aros y practis ar gyfer y cleifion, yn hytrach nag ar wefan y practis yn unig.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd yn amlwg bod staff y practis yn gweithio'n galed i geisio diwallu anghenion cleifion unigol. Roedd hyn yn cynnwys trefnu apwyntiadau yn ystod adegau tawelach i gleifion awtistig a sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn gallu gweld eu hoff glinigwyr bob amser.
- Roedd mynediad llawn i bobl anabl yn y practis. Roedd pob meddygfa ar y llawr gwaelod ac roedd drysau'r brif fynedfa yn rhai awtomatig.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*“Rwy'n fodlon ar y gwasanaeth.”*

*“Mae'r gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar - rwy'n hapus iawn.”*

*“Mae Meddygfa Llynfi wedi cael llawer o sylw gwael yn ddiweddar sy'n gwbl anghywir yn fy marn i.”*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Cawsom ein sicrhau bod y cleifion sy'n mynychu Meddygfa Llynfi yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd pob ystafell glinigol o faint priodol ac yn daclus ar y cyfan.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd y rhain i gyd yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Hefyd gwelsom dystiolaeth fod gweithdrefn gadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn y fferyllfa yn ddiogel ac y rhoddir cyfrif amdani.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r staff sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol ac asesiad risg rheoli heintiau yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i'r staff sicrhau y nodir cysylltiadau clir rhwng y cyffuriau a ragnodir a'r broblem glinigol yng nghofnodion y cleifion.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom dystiolaeth fod matrics cadarn ar waith yn y practis ar gyfer digwyddiadau o bwys.
- Roedd proses gadarn ar waith yn y practis ar gyfer monitro cyfarpar dadebru a chyffuriau brys a darparu rhai newydd yn eu lle.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Yn dilyn trafodaethau â staff y practis, roedd yn amlwg eu bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal da i'r cleifion a'u bod yn awyddus i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion manwl yn cael eu cymryd. Gallai'r holl staff gael gafael ar y rhain drwy yriant a rennir.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer yr holl staff yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n addas ar gyfer eu rôl.
- Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei chadw yn ffeiliau'r staff.
- Dylai'r practis ddiweddaru holl bolisïau'r practis, gan sicrhau eu bod wedi'u dyddio a'u bod yn cynnwys dyddiad adolygu blynyddol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom dystiolaeth fod strwythur rheoli clir ar waith yn y practis.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

